# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 21 Chwefror 2012** |
| Amser: | **09:10 - 11:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_21_02_2012&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Helen Birtwhistle, Director, Welsh NHS Confederation**<br>**Dr Andrew Goodall, Chief Executive of Aneurin Bevan Health Board**<br>**Huw Vaughan Thomas, Auditor General for Wales, Wales Audit Office**<br>**Mark Jeffs, Wales Audit Office**<br>**Andy Phillips, Performance Specialist, Wales Audit Office** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Leanne Wood. Roedd Lindsay Whittle yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2. Darlun o wasanaethau cyhoeddus - tystiolaeth gan Gonffederasiwn y GIG

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Helen Birtwhistle, Cyfarwyddwr Conffederasiwn GIG Cymru, a Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

2.2 Holodd y Pwyllgor y tystion.

**Pwyntiau gweithredu:**

Cytunodd Conffederasiwn GIG Cymru i ddarparu'r hyn a ganlyn:

- Manylion am yr arian ychwanegol a ryddhawyd o gyllideb ddiweddar Llywodraeth Cymru a ddyrennir i Fyrddau Iechyd Lleol dros y tair blynedd nesaf.
- Rhagor o wybodaeth am lle y gwnaed arbedion ariannol arwyddocaol a lle y llwyddwyd i leihau costau'n sylweddol gan fyrddau iechyd unigol.

## 3. Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfranogiad y cyhoedd o ran ailgylchu gwastraff

3.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth gan Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac Andy Phillips, Arbenigwr Perfformiad, ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff.*

3.2 Trafododd y Pwyllgor adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

3.3 Cytunodd y Cynghorydd Cyfreithiol i ddarparu nodyn ar gymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ailgylchu gwastraff.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:

Eitem 5.

## 5. Trafod opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfranogiad y cyhoedd o ran ailgylchu gwastraff

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff.*

## 6. Papur i'w nodi

6.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2012.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.